# Rhoi'r Warant Ieuenctid ar waith yng Nghymru

Canllawiau drafft

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Canlyniadau gwell i bobl ifanc

## Darpariaeth



Mae'r ddogfen hon yn cefnogi Adran 5 o'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid*

# Rhoi'r Warant Ieuenctid ar waith yng Nghymru

**Cynulleidfa**

Awdurdodau lleol, ysgolion, darparwyr ôl-16, swyddfeydd Gyrfa Cymru a chydgysylltwyr ymgysylltu a datblygu..

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn cefnogi'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid*. Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyfarwyddyd cychwynnol i awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol ar y Warant Ieuenctid a'r prif brosesau i'w sefydlu i sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i ymwneud ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Caiff y ddogfen ei llywio gan weithgarwch y treialon a bydd ei ffurf derfynol yn ymddangos yn hydref 2014 cyn i'r Warant Ieuenctid gael ei chyflwyno ledled Cymru.

**Camau i'w cymryd**

Dylai pob awdurdod lleol, pob ysgol, pob darparwr ôl-16 a phob swyddfa Gyrfa Cymru yn ardaloedd treialu'r Warant Ieuenctid ddarllen y canllawiau hyn a gweithredu yn eu hôl. Dylai awdurdodau lleol eraill (yn enwedig cydgysylltwyr ymgysylltu a datblygu), ysgolion, darparwyr ôl-16 a swyddfeydd Gyrfa Cymru pob ardal arall ddarllen y canllawiau hyn er mwyn paratoi ar gyfer yr adeg pan gaiff y Warant Ieuenctid ei rhoi ar waith ledled Cymru. Dylid cwblhau'r profforma adborth ar y Warant Ieuenctid i roi gwybodaeth i helpu i ddatblygu fersiwn derfynol y ddogfen hon.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Is-adran Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: youthengagementandprogression@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

© Hawlfraint y Goron Ionawr 2014
WG20566

# Cynnwys


**Cyflwyno'r Warant Ieuenctid yng Nghymru** **1**

Pwy ddylai ddarllen y canllawiau hyn? 1

Pwy sy'n gyfrifol am weithredu'r Warant Ieuenctid? 1

Pam cyflwyno Gwarant Ieuenctid? 1

Beth yw'r Warant Ieuenctid? 2

Beth yw cynnig addas? 2

Pwy sy'n penderfynu a yw cynnig yn diwallu anghenion person ifanc? 3

Pwy sy'n gorfod cael cynnig? 3

A oes eithriadau? 4

Sut y bwriedir rhoi'r Warant ar waith? 4

Beth yw Prosbectws y Warant Ieuenctid? 5

Camau allweddol rhoi'r Warant Ieuenctid ar waith 6

Monitro'r gwaith o weithredu'r Warant Ieuenctid 9

Cofnodi'r Warant 9

**Atodiad: Sut y mae mapio darpariaeth ieuenctid a'r Warant Ieuenctid yn helpu i weithredu'r Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid** **11**

# Cyflwyno'r Warant Ieuenctid yng Nghymru

Yng Nghynllun Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid rydym yn ymrwymo i gyflwyno gwarant y bydd lle mewn addysg neu hyfforddiant i bobl ifanc sy'n gadael addysg orfodol am y tro cyntaf. Mae ein Gwarant Ieuenctid yn cynnwys "cynnig, derbyn a chychwyn lle addas mewn addysg neu hyfforddiant i berson ifanc sy'n symud am y tro cyntaf o addysg orfodol yn 16 oed".

Mae'r Warant Ieuenctid yn cael ei threialu yn rhanbarthau Gogledd a Gorllewin Cymru rhwng Tachwedd 2013 a Hydref 2014. Bwriedir rhoi'r Warant Ieuenctid ar waith ledled Cymru rhwng Tachwedd 2014 a Hydref 2015. Felly bydd y grŵp cyntaf o bobl ifanc yn cychwyn eu cynigion o dan y Warant ym Medi a Hydref 2015.

## Pwy ddylai ddarllen y canllawiau hyn?

Dylai pob Awdurdod Lleol, pob ysgol, pob darparwr ôl-16 a phob swyddfa Gyrfa Cymru yn yr ardaloedd treialu ddarllen y canllawiau hyn a gweithredu yn eu hôl. Dylai Awdurdodau Lleol (yn enwedig Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu), ysgolion, darparwyr ôl-16 a swyddfeydd Gyrfa Cymru pob ardal arall ddarllen y canllawiau hyn er mwyn paratoi ar gyfer yr adeg pan gaiff y Warant Ieuenctid ei rhoi ar waith ledled Cymru.

Bydd y ddogfen hon yn cael ei mireinio a'i diweddaru wrth i'r rhaglen dreialu fynd rhagddi a bwriedir cyhoeddi canllawiau terfynol ar weithredu'r Warant Ieuenctid yn hydref 2014, ar ôl yr adolygiad o'r cyfnod treialu. Codir nifer o gwestiynau ynglŷn â pholisi a gweithredu yn y ddogfen hon a byddem yn croesawu barn a sylwadau partneriaid yn eu cylch.

## Pwy sy'n gyfrifol am weithredu'r Warant Ieuenctid?

Cyfrifoldeb cyffredinol awdurdodau lleol fydd gweithredu'r Warant Ieuenctid a bydd yn rhan o'u rôl strategol arweiniol i roi'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ar waith. Mae rôl y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu (CYD) yn allweddol o ran cydgysylltu gwaith rhwng yr awdurdod lleol, Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Ieuenctid, ysgolion a darparwyr ôl-16.

## Pam cyflwyno Gwarant Ieuenctid?

Disgwyliwn y bydd cyflwyno Gwarant Ieuenctid ledled Cymru yn arwain at welliant sylweddol ym mhrofiad pobl ifanc wrth benderfynu sut i gael addysg a hyfforddiant ôl-16 pan gyrhaeddant yr oedran gadael ysgol statudol. Yn sgil y Prosbectws a'r Ffurflen Gais Ardal Gyffredin newydd sydd ar gael ar www.gyrfacymru.com (yng ngweddill y canllawiau hyn byddwn yn galw'r Prosbectws Ardal Gyffredin electronig yn Brosbectws y Warant Ieuenctid) bydd modd i bobl ifanc, am y tro cyntaf, weld opsiynau dysgu ôl-16 posibl ochr yn ochr er mwyn penderfynu, gyda chyngor a chyfarwyddyd ar yrfaoedd, pa ddarpariaeth fydd orau iddynt.

Bydd y Warant Ieuenctid yn darparu proses gyffredinol, glir a fydd yn sicrhau bod pob person ifanc sy'n symud am y tro cyntaf o addysg orfodol yn gallu cychwyn cynnig addas o addysg neu hyfforddiant (fel y nodir ar y dudalen nesaf). Bydd yn helpu i dargedu cymorth yn well at y rhai sydd ei angen; yn sicrhau dull systematig o gasglu gwybodaeth ar gyrchfannau ôl-16 arfaethedig pobl ifanc; ac yn hwyluso camau dilynol effeithiol i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n pontio'n llwyddiannus ac yn

gynaliadwy i ddysgu ôl-16. Bydd y broses yn amlygu bylchau mewn darpariaeth ac yn helpu darparwyr i ymateb i anghenion pobl ifanc yn ogystal â chyflogwyr.

**Angen adborth:** Byddwn yn adolygu ac yn gwerthuso'r Warant Ieuenctid yn ei dwy flynedd gyntaf ac rydym eisoes wedi nodi ein bwriad i gyflwyno Gwarant ddilynol i gynorthwyo pobl ifanc sy'n rhoi'r gorau i ddysgu yn nhymor cyntaf y cyfnod ôl-16. Rydym hefyd yn ystyried estyn y Warant Ieuenctid i gynnwys pobl ifanc sy'n gadael addysg ym Mlwyddyn 12 er mwyn eu helpu i bontio i ddarpariaeth addysg arall neu i gyflogaeth. Beth yw barn partneriaid am y cynigion hyn?

## Beth yw'r Warant Ieuenctid?

Mae'r Warant Ieuenctid yn cynnwys cynnig, derbyn a chychwyn lle addas mewn addysg neu hyfforddiant i berson ifanc sy'n symud am y tro cyntaf o addysg orfodol yn 16 oed.

Mae lle mewn addysg neu hyfforddiant yn cynnwys:

- lle rhan-amser neu amser llawn mewn ysgol neu goleg
- cyfle i gael Prentisiaeth
- lle ar un o Hyfforddeiaethau Llywodraeth Cymru
- lle ar raglen ailymgysylltu
- cyfle i wirfoddoli*
- rhaglen hyfforddi Lefel 2 yn ystod cyflogaeth

*Dim ond gwirfoddoli hirdymor sy'n cynnwys opsiynau neu gymorth i ddatblygu a ystyrir yn gynnig addas o dan y Warant. Nid yw lleoliadau profiad gwaith byr yn cyfrif.

**Angen adborth:** Rydym yn cynnwys gwirfoddoli fel cynnig o dan y Warant ond caiff hyn ei adolygu dros y ddwy flynedd gyntaf. Hoffem wybod a yw rhanddeiliaid yn credu y dylai cyfle i wirfoddoli gael ei ystyried yn gynnig addas o dan y Warant?

## Beth yw cynnig addas?

Rhaid i gynnig addas:

- gynnwys dyddiad cychwyn, a gytunwyd, cyn 31 Hydref yn y flwyddyn y bydd person ifanc yn cyrraedd yr oedran gadael ysgol statudol
- ymddangos ar Brosbectws Gwarant Ieuenctid yr awdurdod lleol[1]
- cynnwys deilliant datblygu/cyrchfan arfaethedig a ddangosir ar Brosbectws y Warant Ieuenctid
- diwallu anghenion y person ifanc fel cam priodol tuag at yr yrfa y mae am ei dilyn o ran lefel, lleoliad a diwydiant/sector.

**Angen adborth:** Nid ydym wedi nodi bod yn rhaid i ddarpariaeth bara am nifer ofynnol o oriau yr wythnos neu y mis i gael ei hystyried yn gynnig o dan y Warant. Ein rhesymeg am hyn yw y bydd llawer o'r ddarpariaeth ailymgysylltu, yn enwedig yn Haen 2 o fapiau darpariaeth Awdurdodau Lleol, wrth reswm yn weddol ysgafn. Credwn mai'r hyn sy'n bwysig yw bod pobl ifanc (yn enwedig y rhai sy'n dod o dan

[1] Bydd Prosbectws y Warant Ieuenctid (y Prosbectws Ardal Gyffredin gynt) yn cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi'n electronig gan bob awdurdod lleol. Bydd yn cynnwys yr holl leoedd mewn addysg a hyfforddiant a restrir uchod a bydd yn cael ei fapio er mwyn diwallu anghenion pobl ifanc a'r farchnad lafur berthnasol. Ceir mwy o fanylion ar dudalen 5.

Haen 2) ynghlwm wrth ryw fath o ddysgu neu hyfforddiant a bod llwybr clir iddynt ddatblygu o'r dysgu hwnnw. Trwy bennu nifer ofynnol o oriau (er enghraifft, 16, i gyd-fynd â'r system fudd-daliadau) mae'n bosibl y byddem, yn anfwriadol, yn atal rhai o'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed rhag cael cynnig o dan y Warant sy'n diwallu eu hanghenion yn iawn. Hoffem wybod a yw rhanddeiliaid yn credu y dylem ailystyried ein dull a nodi bod yn rhaid i ddarpariaeth bara am nifer ofynnol o oriau yr wythnos neu y mis i gael ei hystyried yn gynnig addas o dan y Warant?

## Pwy sy'n penderfynu a yw cynnig yn diwallu anghenion person ifanc?

Yr CYD sy'n gyfrifol am dracio a hysbysu statws Gwarant yr holl bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol yn ardal ei Awdurdod Lleol. Er hynny, mae'n annhebygol y bydd yr CYD yn gallu barnu a yw cynigion unigol yn addas i bobl ifanc unigol.

Bydd y mwyafrif llethol o bobl ifanc yn gallu penderfynu drostynt eu hunain, gyda chymorth a chyfarwyddyd priodol ar yrfaoedd, a yw'r ddarpariaeth y maent yn ymgeisio amdani yn diwallu eu hanghenion. Yn achos pobl ifanc sydd â gweithiwr arweiniol, bydd angen i'r gweithiwr arweiniol weithio gyda'r person ifanc (a rhoi adborth wedyn i'r CYD) i ddod o hyd i gynnig sy'n diwallu ei anghenion.

## Pwy sy'n gorfod cael cynnig?

Rhaid i bob person ifanc ym Mlwyddyn 11 (sy'n mynd i gyrraedd yr oedran gadael ysgol statudol, 16) gael cynnig o dan y Warant Ieuenctid. Mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am gynnig lle i bobl ifanc sy'n mynd i gyrraedd yr oedran gadael ysgol statudol ac:

- sydd ar CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) mis Mai y flwyddyn berthnasol
- sydd yn y ddalfa, ond sydd fel arfer yn byw yn ardal yr awdurdod
- nad ydynt ar gofrestr ysgol (gan gynnwys y rhai sy'n derbyn addysg yn y cartref neu sy'n colli addysg, y rhai sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol a'r rhai sydd mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion) ac sy'n byw yn ardal yr awdurdod.

Dylai Awdurdodau Lleol roi sylw penodol i sicrhau bod pobl ifanc sydd â rhwystrau ychwanegol/lluosog yn cael cynnig addas; er enghraifft, y rhai:

- sydd wedi ymddieithrio rhag addysg
- sy'n colli ysgol neu'n derbyn addysg yn y cartref
- sy'n anelu'n isel neu'n cael odid ddim cymorth gan y teulu
- sy'n wynebu rhwystrau mawr, e.e. anawsterau neu anableddau dysgu, plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal, gofalwyr ifanc, rhieni yn eu harddegau, pobl ifanc sydd wedi troseddu.

Yn aml, pobl ifanc â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig yw'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf difrifol a chymhleth. Ar hyn o bryd, bydd Gyrfa Cymru (ar ran Gweinidogion Cymru) yn cynnal asesiad o anghenion addysg a hyfforddiant y dysgwyr hyn pan fyddant yn gadael yr ysgol ac yn symud i addysg a hyfforddiant ôl-16. At hynny, ceir cynnal asesiad ar gyfer unrhyw unigolyn, sydd dros yr oedran ysgol gorfodol ond dan 25, yr ymddengys bod ganddo anhawster dysgu ac sy'n derbyn neu'n dymuno derbyn addysg neu hyfforddiant ôl-16. Yn achos y bobl ifanc 16 oed hyn, dylai'r asesiad a'r Warant Ieuenctid fod yn rhan o'r un broses.

Mae gan bobl ifanc mewn ysgolion annibynnol hawl i gynnig. Sut bynnag, dim ond os byddant wedi cofrestru gyda Gyrfa Cymru y bydd disgwyl iddynt gael eu tracio at ddibenion y Warant.

## A oes eithriadau?

Efallai na fyddai'n briodol ar hyn o bryd i nifer fach o bobl ifanc gael cynnig o dan y Warant. Efallai fod amgylchiadau personol, fel salwch, yn eu hatal rhag ymgeisio am le addysg neu hyfforddiant neu efallai y gwyddys eu bod eisoes wedi cael swydd heb hyfforddiant. Bwriadwn dracio'r bobl ifanc hyn ac, os bydd yn briodol, byddwn yn gwneud cynnig addas gyda chymorth eu gweithiwr arweiniol pan fydd y bobl ifanc hyn yn barod i barhau, ac yn gallu parhau, â'u haddysg neu eu hyfforddiant.

Gwyddom fod rhai pobl ifanc am fentro i'r farchnad lafur yn 16 oed. Rydym am i hynny barhau i fod yn opsiwn iddynt. Sut bynnag, bydd llawer o bobl ifanc sy'n dechrau gweithio yn 16 oed yn cael swyddi dros dro heb fynediad at hyfforddiant pellach a byddant yn aml yn rhoi'r gorau iddi ac yn ymddieithrio. Rydym am i bobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad lafur yn 16 oed barhau i gael hyfforddiant naill ai'n uniongyrchol drwy eu cyflogwr neu gyda darparwr addysg neu hyfforddiant drwy amser i ffwrdd o'r gwaith. Am fod mwy o berygl i bobl ifanc mewn Swyddi Heb Hyfforddiant ymddieithrio, byddwn yn cydweithio â Gyrfa Cymru yn ystod y cyfnod treialu i ystyried yr opsiynau ar gyfer nodi a chysylltu â phobl ifanc mewn Swyddi Heb Hyfforddiant i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd a gynigir gan addysg a hyfforddiant.

## Sut y bwriedir rhoi'r Warant ar waith?

Er bod y sylfeini ar gyfer pontio llwyddiannus i addysg neu hyfforddiant ôl-16 yn cael eu gosod drwy gydol addysg uwchradd person ifanc, bydd yr holl gamau penodol i roi'r Warant Ieuenctid ar waith yn cael eu cymryd ym Mlwyddyn 11.

Yn ganolog i weithredu'r Warant Ieuenctid mae Prosbectws a phroses ymgeisio'r Warant sydd ar gael ar www.gyrfacymru.com. Erbyn adeg cyflwyno'r Warant Ieuenctid ledled Cymru, bwriadwn i'r Prosbectws llawn fod ar gael yn electronig a bydd modd i bobl ifanc weld gwybodaeth ym Mlynyddoedd 10 ac 11 am yr ystod lawn o ddewisiadau sydd ar gael iddynt yn y cyfnod ôl-16.

Bydd modd i bobl ifanc sy'n ymgeisio drwy'r system hon gael eu tracio i sicrhau eu bod wedi cwblhau cais yn llwyddiannus ac yna i weld a ydynt wedi derbyn y lle hwnnw ai peidio. Bydd y system hon yn rhoi cyfle i dargedu cymorth yn fwy uniongyrchol at bobl ifanc ym Mlwyddyn 11 nad ydynt wedi cwblhau cais neu y mae eu ceisiadau wedi'u gwrthod, er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymorth i ystyried opsiwn arall. Gellir ei defnyddio hefyd i nodi'r bobl ifanc nad ydynt yn cychwyn eu cynnig disgwyliedig erbyn y mis Hydref dilynol, gan sicrhau bod Gyrfa Cymru'n cael darlun manwl gywir o gyrchfannau ôl-16 uniongyrchol y cohort cyfan.

Ond am y tro, ni fydd darpariaeth ran-amser mewn ysgol neu goleg, darpariaeth ailymgysylltu na chyfleoedd gwirfoddoli ar gael ar Brosbectws y Warant Ieuenctid (er y bwriadwn i'r rhain fod ar gael pan gyflwynir y Warant ledled Cymru). P'run bynnag, mae'n debygol iawn y bydd angen i bobl ifanc y byddai darpariaeth o'r fath yn addas ar eu cyfer (h.y. y rheini y nodwyd bod perygl iddynt ymddieithrio neu beidio â phontio'n llwyddiannus) gael cymorth (gan weithiwr arweiniol) i ymgeisio am a manteisio ar yr opsiwn mwyaf priodol iddynt hwy.

I ateb y gofyniad i sicrhau cynnig addas o dan y Warant Ieuenctid i holl bobl ifanc eu hardal, bydd yn rhaid bod Awdurdodau Lleol wedi mapio'r holl ddarpariaeth yn eu hardaloedd yn fanwl yn erbyn model 5 Haen Gyrfa Cymru (gweler isod). Bydd angen i bobl ifanc a gaiff gymorth i wneud cais am ddarpariaeth nad yw ar y prosbectws Gwarant Ieuenctid electronig ar hyn o bryd wneud hynny 'all-lein'.

Yn ystod y cyfnod treialu byddwn yn datblygu'r prosesau tracio ac ymgeisio electronig i sicrhau bod y bobl ifanc hyn, gyda chymorth, yn cael cynnig addas o dan y Warant Ieuenctid.

## Beth yw Prosbectws y Warant Ieuenctid?

Mae'r fersiwn electronig o Brosbectws y Warant Ieuenctid sydd ar gael ar www.gyrfacymru.com ar hyn o bryd yn cynnwys darpariaeth amser llawn mewn ysgol neu goleg a gwybodaeth am Brentisiaethau a Hyfforddeiaethau.

Sut bynnag, yn rhan o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid rydym wedi gofyn i Awdurdodau Lleol fapio'r holl ddarpariaeth yn eu hardaloedd er mwyn cael darlun clir o ba mor dda y mae darpariaeth yn diwallu anghenion yr holl bobl ifanc. Rydym wedi gofyn i'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu arwain y gwaith hwn yn lleol gan ddefnyddio gwybodaeth o'r broses nodi'n gynnar ac o fodel pum haen Gyrfa Cymru a chan weithio drwy eu Rhwydweithiau 14-19 (rhanbarthol a lleol).

Bydd y map hwn o ddarpariaeth yn cynnwys y ddarpariaeth ar-lein electronig a'r ddarpariaeth ran-amser all-lein mewn ysgol neu goleg, darpariaeth ailymgysylltu neu gyfleoedd gwirfoddoli. Bydd cael darlun cyflawn o'r ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol i bobl ifanc yn hanfodol i lwyddiant y Warant Ieuenctid.

Rydym wedi datblygu rhai egwyddorion cyffredin ar gyfer mapio darpariaeth.

- Bydd y gwaith mapio darpariaeth yn cynnwys darpariaeth addysg, hyfforddiant ac ailymgysylltu a gomisiynwyd yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.
- Dylai gynnwys darpariaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, drwy bartneriaethau 14-19 lleol a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ogystal â thrwy sefydliadau yn y trydydd sector.
- Yn y lle cyntaf, dylai'r holl ddarpariaeth i bobl ifanc 16-18 oed gael ei mapio; ymhen amser hoffem ehangu'r mapio i gwmpasu'r holl ddarpariaeth 14-19.
- Dylai darpariaeth gael ei mapio yn erbyn model pum haen Gyrfa Cymru o ymgysylltu a dylai fod atebolrwydd clir am bob haen o ddarpariaeth.
- Dylai'r mapio ddangos llwybr datblygu clir rhwng pob haen o ddarpariaeth a dylai fod systemau atgyfeirio rhwng haenau er mwyn i bobl ifanc gael cymorth i symud i ddysgu pellach neu i fyd cyflogaeth.
- Dylai pob awdurdod lleol lunio map sylfaenol o ddarpariaeth erbyn Mawrth 2014 er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflwyno'r Warant Ieuenctid.
- Dylai'r map o ddarpariaeth gael ei lunio i ddechrau ar lefel yr awdurdod lleol, ond dylai rhwydweithiau 14-19 helpu i gyfuno'r mapiau ar lefel ranbarthol ar draws consortia er mwyn ystyried anghenion yn ehangach.

- Dylai'r map sylfaenol o ddarpariaeth gael ei adolygu a'i ddiweddaru bob blwyddyn.
- Dylai data ar ddatblygiad pobl ifanc rhwng haenau gael eu defnyddio i lywio'r prosesau comisiynu ar gyfer darpariaeth newydd.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi rhagor o ganllawiau ar fapio darpariaeth i helpu Awdurdodau Lleol i ddatblygu'r fersiwn rannol ar-lein a rhannol all-lein o Brosbectws y Warant Ieuenctid erbyn Mawrth 2014, a bydd y fersiwn ar-lein lawn ar gael ar www.gyrfacymru.com erbyn Mawrth 2015.

## Camau allweddol rhoi'r Warant Ieuenctid ar waith

**Cam 1 Cymorth i Gynllunio ac Ymgeisio**
Diwedd Blwyddyn 10 ac/neu Medi–Mawrth Blwyddyn 11

Yn y cam hwn caiff pobl ifanc gyfarwyddyd i ddechrau ystyried eu cyrchfannau ôl-16 ac i ymgyfarwyddo â'r ffurflen gais ar-lein. Erbyn mis Mawrth bydd nifer o bobl ifanc wedi mewngofnodi ac wedi nodi eu hopsiynau. Gan fod Prosbectws terfynol y Warant Ieuenctid ar gael, anogir pobl ifanc i gwblhau eu cais ar-lein. Bydd cymorth pellach yn cael ei roi yn benodol i bobl ifanc nad ydynt wedi cyflwyno cais. Caiff darpariaeth leol/ranbarthol ei chomisiynu sy'n ystyried cyrchfannau arfaethedig ac anghenion y farchnad lafur leol.

Canlyniadau Cam 1

- Prosbectws ar-lein terfynol y Warant Ieuenctid
- 90% o bobl ifanc yn cwblhau ceisiadau ar-lein

**Cam 2 Cynnig Addas a Chamau Dilynol**
Blwyddyn 11 Ebrill–Mehefin

Mae pobl ifanc yn cael cynigion addas gan ddarparwyr ac yn eu hystyried cyn eu derbyn/gwrthod. Caiff hynt cynigion ei thracio a bydd y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn trefnu cymorth pellach pan fo angen i sicrhau bod pobl ifanc yn symud tuag at dderbyn cynnig addas. Caiff ceisiadau eu dadansoddi gan Awdurdodau Lleol (yn arbennig y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu) a chan ddarparwyr ôl-16 er mwyn cael gwybodaeth i gynllunio darpariaeth leol/ranbarthol.

Canlyniadau Cam 2

- 80% o bobl ifanc yn derbyn cynnig dros dro o dan y Warant Ieuenctid

**Cam 3 Cymorth wedi'i Dargedu**
Gorffennaf–Hydref

Cymorth dwys, a drefnir gan y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu ac a ddarperir gan y gweithiwr arweiniol pan fo'n briodol, i'r bobl ifanc hynny nad ydynt wedi derbyn cynnig addas dros dro, a chymorth pellach i'r rheini y mae angen iddynt ystyried opsiynau eraill. Tracio'r cynigion a dderbynnir gan bobl ifanc. Ysgol haf i bobl ifanc sy'n ansicr ynglŷn â'u cyrchfan ac i'r rhai y mae perygl iddynt ymddieithrio.

Canlyniadau Cam 3

- 97% o bobl ifanc wedi derbyn a chychwyn cynnig o dan y Warant Ieuenctid

**Cam 4 Ailymgysylltu**
O fis Tachwedd

Darparwyr ôl-16 yn hysbysu Gyrfa Cymru am rai sy'n gadael yn gynnar ac am y rhai y mae perygl iddynt ymddieithrio, ac yn rhoi cymorth i ailymgysylltu. Cwblhau arolwg o gyrchfannau i gadarnhau'r cyrchfannau terfynol. Monitro'r data cyrchfannau er mwyn gwella'r gwaith o helpu pobl ifanc i ymgysylltu, dyfalbarhau a datblygu.

Canlyniadau Cam 4

- 98% o bobl ifanc yn cael eu tracio yn System 5 Haen Gyrfa Cymru
- 97% o bobl ifanc ynghlwm wrth addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (yn ôl Gyrfa Cymru yn Cyrchfannau disgyblion o ysgolion yng Nghymru – Data Awdurdodau Lleol).

## Rolau a chyfrifoldebau allweddol wrth weithredu'r Warant Ieuenctid

| Cam | Awdurdod Lleol | Ysgolion | Gyrfa Cymru | Darparwyr ôl-16 |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Coladu a chymeradwyo Prosbectws y Warant Ieuenctid<br><br>Adolygu'r ddarpariaeth, rhoi sylw i fylchau ac i ddyblygu neu orgyflenwi<br><br>Helpu pobl ifanc mewn gofal, pobl ifanc sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, a phobl ifanc mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion i ystyried opsiynau<br><br>Adolygu anghenion y farchnad lafur ar y cyd â phartneriaid a chytuno ar flaenoriaethau newydd ar gyfer y ddarpariaeth i'w chomisiynu | Cynyddu ymwybyddiaeth o broses y Warant Ieuenctid<br><br>Helpu'r holl bobl ifanc i nodi opsiynau dros dro a chwblhau cais ar-lein, yn enwedig y rhai y mae perygl iddynt ymddieithrio a symud i gyrchfan negyddol<br><br>Nodi/helpu pobl ifanc nad ydynt wedi cwblhau cais | Dadansoddi a rhagweld y galw cyffredinol am ddarpariaeth ar lefel ranbarthol, lefel leol a lefel darparwyr<br><br>Gweithredu ar y cyd ag ysgolion i nodi pobl ifanc nad ydynt wedi cyflwyno cyrchfannau arfaethedig ar-lein<br><br>Hysbysu'r galw cyffredinol am ddarpariaeth ar lefel ranbarthol, lefel leol a lefel darparwyr<br><br>Gweithio gydag ysgolion i nodi/helpu pobl ifanc nad ydynt wedi cwblhau cais | Darparu data dros dro Prosbectws y Warant Ieuenctid erbyn mis Tachwedd a'r data terfynol erbyn mis Mawrth<br><br>Adolygu'r ddarpariaeth, rhoi sylw i fylchau ac i ddyblygu neu orgyflenwi, a diweddaru cynlluniau'r ddarpariaeth<br><br>Cynllun i ateb y galw a nodwyd gan bobl ifanc |
| 2 | Cydweithio â phartneriaid lleol i sicrhau y gellir cynnig darpariaeth addas i bob person ifanc<br><br>Yr CYD i arwain a monitro'r broses/ partneriaid i sicrhau bod pob person ifanc yn gwneud cais | Helpu pobl ifanc i gwblhau cais ar-lein<br><br>Eu helpu i ystyried/ derbyn cynigion | Helpu pobl ifanc i gwblhau cais ar-lein os nad ydynt yn cael help gan ysgolion<br><br>Tracio hynt cynigion a helpu pobl ifanc i symud tuag at dderbyn cynnig addas<br><br>Cydweithio ag ysgolion i sicrhau bod pob person ifanc yn cwblhau cais ar-lein | Rhoi i bobl ifanc gynigion sy'n diwallu eu hanghenion |
| 3 | Monitro argaeledd darpariaeth addas a helpu i lenwi bylchau<br><br>Yr CYD i flaenoriaethu cymorth ar gyfer y rhai nad ydynt wedi cwblhau cais | Rhoi cymorth i'r bobl ifanc hynny nad ydynt wedi derbyn cynnig addas dros dro<br><br>Cynnig cymorth clirio ar ôl TGAU i bobl ifanc y mae angen iddynt ystyried opsiynau eraill | Tracio cynigion ar y cyd ag ysgolion<br><br>Rhoi cymorth i'r bobl ifanc hynny nad ydynt wedi derbyn cynnig addas dros dro<br><br>Rhoi cymorth pontio i'r bobl ifanc hynny y mae perygl iddynt beidio â phontio'n gadarnhaol<br><br>Gweithio gydag ysgolion i gynnig cymorth clirio ar ôl TGAU i bobl ifanc y mae angen iddynt ystyried opsiynau eraill | Cydweithio ag ysgolion a Gyrfa Cymru i roi cynnig addas i bob person ifanc ac i ddarparu cymorth pontio drwy gydol yr haf |
| 4 | Monitro perfformiad a chynnig atebion i broblemau cyflenwad/ galw | Adolygu data cyrchfannau a phenderfynu ar gamau i wella'r canlyniadau | Cwblhau arolwg o gyrchfannau Blwyddyn 11 a pharatoi adroddiad ar yr arolwg<br><br>Ymgysylltu â phobl ifanc sydd wedi rhoi'r gorau iddi neu sydd wedi cwblhau cwrs er mwyn ailymgysylltu | Hysbysu Gyrfa Cymru am rai sy'n gadael yn gynnar<br><br>Sicrhau bod cyfleoedd ar gael i ddysgu'n hyblyg<br><br>Gweithio gyda darparwyr eraill i wella'r pontio rhwng darparwyr |

## Monitro'r gwaith o weithredu'r Warant Ieuenctid

Dylai canlyniadau'r camau, a ddangosir uchod, gael eu monitro gan yr CYD a fydd yn cael gweld Adroddiadau Gwybodaeth Gyrfa Cymru er mwyn sicrhau bod 97% o bobl ifanc erbyn 31 Hydref yn cychwyn lle o dan y Warant Ieuenctid ac yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro data Awdurdodau Lleol o ran Canlyniadau Camau'r Warant Ieuenctid er mwyn asesu perfformiad a gwella'r canlyniadau i bobl ifanc ledled Cymru. Dylai Awdurdodau Lleol a Phartneriaethau Rhanbarthol hefyd ddefnyddio'r data hyn i lywio'r broses gomisiynu ac i sicrhau bod anghenion pobl ifanc yn cael eu diwallu'n briodol.

Bydd data o Arolwg Cyrchfannau Blynyddol Gyrfa Cymru ac o'i model Pum Haen yn dangos nifer y bobl ifanc sy'n dal i fod yn y lle a ddewiswyd ganddynt o dan y Warant a bydd partneriaid yn defnyddio'r data hyn i wella'r gwaith o ddadansoddi, comisiynu a darparu'r lleoedd addysg a hyfforddiant a gynigir yn rhan o'r Warant Ieuenctid.

Bydd gwerthusiad annibynnol yn cael ei gomisiynu er mwyn gwerthuso'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid dros y 2-3 blynedd nesaf, mewn dau gam. Bydd cam 1 o'r gwerthusiad yn digwydd yn ystod 2014, a bydd yn canolbwyntio ar weithredu'r fframwaith cyfan yn ei flwyddyn gyntaf gan gynnwys datblygu systemau i gynnal y Warant Ieuenctid. Bydd cam 2 o'r gwerthusiad yn cychwyn yn 2015, ar ôl i gam 1 ddod i ben. Bydd cam 2 yn nodi effaith gynnar prif gamau gweithredu'r fframwaith, gan gynnwys y Warant Ieuenctid, o ran cyflawni eu hamcanion.

Yn ystod blwyddyn dreialu'r Warant (2014), ac yn ystod ei blwyddyn gyfan gyntaf ar waith ledled Cymru (2015), ni fwriadwn gyhoeddi unrhyw ddata am weithredu'r Warant Ieuenctid. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwn i lywio'n trafodaethau ag Awdurdodau Lleol am eu cynnydd wrth weithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Gan gychwyn yn 2016, bwriadwn gyhoeddi data ar lefel Awdurdodau Lleol am weithredu'r Warant Ieuenctid.

## Cofnodi'r Warant

Isod ceir enghraifft o sut i gofnodi hynt person ifanc drwy broses y Warant Ieuenctid. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn ystod y cyfnod treialu er mwyn i bartneriaid allu defnyddio'u System Gwybodaeth Reoli eu hunain i fonitro ceisiadau.

| Statws | Disgrifiad |
|---|---|
| Ddim yn Barod i Wneud Cais/Ddim yn Gallu | Mae G yn derbyn addysg yn y cartref ar hyn o bryd oherwydd salwch |
| Ddim wedi Gwneud Cais | Mae G wedi gwella ond nid yw'n siŵr pa gwrs i'w ddilyn/pa ddarparwr i'w ddefnyddio ym mis Medi |
| Wedi Gwneud Cais | Ar ôl cael cyngor gan gynghorydd gyrfaoedd mae G wedi dod o hyd i gwrs yr hoffai ei ddilyn ac wedi cyflwyno cais i ysgol a dau goleg yn yr ardal |
| Wedi Cael Cynnig | Mae Coleg A yn cysylltu i gynnig lle i G os caiff y graddau disgwyliedig ac os caiff gyfweliad llwyddiannus |

| | |
|---|---|
| Ddim Wedi Cael Cynnig | Mae Coleg B, ar sail graddau disgwyliedig G, yn penderfynu peidio â chynnig lle |
| Cynnig Ddim yn Briodol | Mae Ysgol A yn dweud wrth G bod y cwrs yn llawn |
| Cynnig wedi'i Dderbyn | Mae G yn derbyn y cynnig gan Goleg A |
| Cynnig wedi'i Gychwyn | Mae G yn cael y graddau disgwyliedig ac ar ôl cyfweliad mae'n cychwyn cwrs yng Ngholeg A |
| Cynnig Ddim wedi'i Gychwyn | Nid yw G yn cael y graddau disgwyliedig ac mae wrthi'n chwilio am gynnig arall |
| Ddim yn Barod i Gychwyn Cynnig/Ddim yn Gallu | Yn anffodus mae iechyd G wedi dirywio eto ac ni all gychwyn y cynnig |
| Dim Cofnod | Pan oedd G yn derbyn addysg yn y cartref oherwydd salwch, fe'i dilëwyd o gofrestr yr ysgol |

## Atodiad: Sut y mae mapio darpariaeth ieuenctid a'r Warant Ieuenctid yn helpu i weithredu'r Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid

| **Y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid** | **Cynllunio Darpariaeth Ieuenctid** | **Gweithredu'r Warant Ieuenctid** |
|---|---|---|
| Nodi'n Gynnar | Caiff cymysgedd ac ehangder y ddarpariaeth 14-16 ac 16-19 eu llywio gan y systemau nodi'n gynnar a dylent ysgogi newidiadau pan fo nifer o'r bobl ifanc sydd mewn perygl yn statig.<br>Bydd y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn sicrhau bod y rhai sydd mewn perygl yn cael cymorth drwy sicrhau bod darpariaeth addas ar gael. | Bydd y Warant Ieuenctid yn hwyluso'r broses nodi'n gynnar drwy dynnu sylw at yr unigolion hynny y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt i gwblhau'r broses ymgeisio. |
| Broceriaeth | Bydd gweithwyr arweiniol yn rhoi adborth ar ansawdd ac argaeledd darpariaeth addas i ddiwallu anghenion pobl ifanc. | Ceir defnyddio gweithiwr arweiniol i helpu'r rhai y mae perygl iddynt beidio â chwblhau'r broses ymgeisio yn rhan o becyn cymorth ehangach. |
| Tracio | Bydd data o systemau tracio fel y model Pum Haen yn rhoi adborth gwerthfawr ar ansawdd ac argaeledd darpariaeth addas. Gellir defnyddio trothwyon i nodi a gwella darpariaeth/darparwyr pan fo'r nifer sy'n rhoi'r gorau iddi yn fawr, ac i rannu arferion da pan fo'r nifer sy'n rhoi'r gorau iddi yn fach. | Bydd y system hon yn rhoi cyfle i dargedu cymorth yn fwy uniongyrchol at bobl ifanc ym Mlwyddyn 11 nad ydynt wedi cwblhau cais neu y mae eu ceisiadau wedi'u gwrthod, er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymorth i ystyried opsiwn arall. Gellir ei defnyddio hefyd i nodi'r bobl ifanc nad ydynt yn cychwyn eu cynnig disgwyliedig erbyn y mis Hydref dilynol, gan sicrhau bod Gyrfa Cymru'n cael darlun manwl gywir o gyrchfannau ôl-16 uniongyrchol y cohort cyfan. |
| Darpariaeth | Bydd argaeledd ac addasrwydd darpariaeth yn dibynnu ar fapio a chomisiynu darpariaeth berthnasol i ddiwallu anghenion pobl ifanc a'r farchnad lafur (canllawiau ar wahân ar hyn). | Bydd Awdurdodau Lleol yn mapio ac yn comisiynu darpariaeth sy'n cyd-fynd â'r galw yn y farchnad lafur ac ymhlith dysgwyr. Bydd Prosbectws y Warant Ieuenctid yn adlewyrchu'r galw hwn a chaiff ei addasu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn dal i adlewyrchu'r galw. |
| Cyflogaeth | Bydd data cyrchfannau cyflogaeth yn ddull pwysig o asesu addasrwydd y ddarpariaeth leol. | Bydd tracio cyrchfannau cyflogaeth pobl ifanc sy'n gadael/cwblhau eu cynnig yn ddefnyddiol wrth gomisiynu darpariaeth, i sicrhau bod y cyflenwad yn cyfateb i'r galw. |
| Atebolrwydd | Bydd mesur nifer o ddangosyddion allweddol yn sicrhau bod darpariaeth yn dal i fod yn addas ac ar gael wrth i anghenion a gofynion pobl ifanc a'r farchnad lafur newid. | Bydd cofnodi data canlyniadau camau, prif ganlyniadau cynigion a chyrchfannau yn sicrhau bod yr ALI a'i bartneriaid yn gallu rheoli perfformiad a gwella proses y Warant Ieuenctid a'i chanlyniadau/heffeithiau. |